**Barn y cyhoedd am ynni gwynt a solar ar y tir**

Mae Cytundeb Paris, [1]a lofnodwyd gan 195 o lywodraethau rhyngwladol, yn gosod y cyd-destun ar gyfer mynd i'r afael â'r achosion a chanlyniadau y newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio'r economi byd-eang. Cadarnhawyd y Cytundeb gan Lywodraeth y DU y llynedd, gan gadarnhau eu cefnogaeth. Yma yng Nghymru, rydym wedi cadarnhau ein gweithredu o ran y newid yn yr hinsawdd trwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n gosod fframwaith datgarboneiddio ar gyfer Cymru, gydag isafswm o 80% o ostyngiad erbyn 2050 a fframwaith cyllidebu carbon ategol.

Mae Cymru wedi cyflawni llawer ym maes datgarboneiddio cyflenwadau pŵer: Mae cyfanswm y trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi treblu ers 2010, gan ddarparu 32% o'r ynni y bu inni ei ddefnyddio y llynedd. Mae datgarboneiddio y sector pŵer yn flaenoriaeth ar gyfer pob llwybr posibl i gyrraedd amcanion Cymru yn 2050. Mae ein Hamcanion Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer cymunedau ac i leihau costau.

Mae polisïau yng Nghymru yn cefnogi rhagor o gynhyrchu adnewyddadwy ar y safleoedd priodol ac ar raddfa briodol. Bydd eu heffaith a'u cyfraniad at ein hadnoddau naturiol ac ecosystemau, a'r manteision o ran llesiant, yn allweddol wrth inni eu hystyried. Rydym yn credu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cyfeiriad clir y polisi cynllunio a chyfeiriad y polisi Rheoli Adnoddau Naturiol yn rhoi fframwaith cefnogol i ddefnyddio ein hadnoddau naturiol, ac yn sicrhau bod ecosystemau Cymru yn haws i'w cynnal ac yn fwy cadarn, mewn dull sy'n golygu y bydd y bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru yn fwy cefnogol ohonynt. Gyda cynllunio gofalus, mae posibilrwydd o ddefnyddio ynni adnewyddadwy i raddau helaeth yng Nghymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau a busnesau yng Nghymru wedi elwa o fabwysiadu technolegau adnewyddadwy. Mae ffermwyr, busnesau gwledig a threfol, cartrefi a chymunedau wedi rheoli eu defnydd o ynni ac wedi buddsoddi mewn cynhyrchu, gan roi mwy o sicrwydd o ran eu biliau a helpu Cymru ar ei llwybr tuag at ddatgarboneiddio. Mae hyn nid yn unig wedi sicrhau swyddi yn y sefydliadau hyn, ond wedi creu swyddi crefftus ym maes cyflawni a cynnal a chadw.

Mae Llywodraeth Prydain wedi pwysleisio pwysigrwydd rheoli costau cynhyrchu trydan, a'r costau dilynol i'r rhai sy'n talu biliau. Mae hyn yn bwysig i Gymru, sydd â chyfran uchel o bobl yn dioddef tlodi tanwydd a ble y ceir nifer o'r diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni ym Mhrydain. Rydym yn cefnogi'r dull o feddwl y dylai cymorth y Llywodraeth ostwng wrth i dechnolegau aeddfedu.

Fodd bynnag, mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i gefnogi datblygiadau adnewyddadwy yn 2015 wedi cael effaith sylweddol ar ddatblygiadau, yn enwedig ar gyfer technolegau gwynt a solar ar y tir. Nid oes unrhyw geisiadau newydd ar gyfer caniatâd cynllunio wedi eu gwneud yn 2016 o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol

[1] 21ain Cynhadledd y Partïon ar gyfer Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (COP 21)

yng Nghymru, ac nid yw nifer o'r datblygiadau sydd â chaniatâd cynllunio yn mynd yn eu blaenau. Nid yw datblygiadau solar mawr wedi'u gosod ar y tir yn cael eu rhoi trwy'r system gynllunio bellach, gyda'r cynlluniau diwethaf i gael cydsyniad yn cael eu hadeiladu erbyn diwedd Mawrth 2017. Ni all prosiectau sy'n cael eu datblygu gan gymunedau ac awdurdodau lleol i sicrhau buddiant lleol, gan gynnwys cynlluniau solar ar ben toeau mewn ardaloedd tlawd o ran tanwydd, yn ogystal â chynlluniau gwynt a solar i ddarparu ynni i adeiladau cyhoeddus a busnesau lleol, ddenu buddsoddiad bellach .

Mae hyn yn fygythiad nid yn unig i'r sector sy'n datblygu a chyflawni'r prosiectau hyn, oedd yn sector oedd yn ffynnu, a gallu cyrff yng Nghymru i sicrhau cadernid ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn fygythiad i allu Cymru i fodloni ei hamcanion o ran yr hinsawdd, sy'n cyfrannu at dargedau 2050 y DU. Mae hyn ar amser pan fo'r dyfodol yn edrych yn fwy ansicr nac erioed o ganlyniad i'r penderfyniad i adael yr UE, a'r angen am fodelau busnes carbon isel cadarn yn dod hyd yn oed yn bwysicach.

Rydym yn credu bod cyfle yn y byd newydd hwn i Lywodraeth y DU edrych eto ar y ffordd y mae'n cefnogi buddsoddiadau newydd mewn ynni. Nid ydym yn credu bod eithrio y technolegau mwyaf fforddiadwy o'r farchnad yn gwneud llawer o synnwyr o'r ochr gyflenwi, o ran y gost i'r rhai sy'n talu'r biliau, neu o safbwynt economaidd. Mae cefnogaeth i dechnolegau sydd wrthi'n datblygu yn bwysig o ran llewyrch economaidd a datgarboneiddio. Rydym angen dull ar y cyd sy'n annog technolegau newydd yn ogystal â chefnogi'r rhai hynny sydd fwyaf economaidd er mwyn cadw costau yn fforddiadwy.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ganiatáu technolegau gwynt a solar ar y tir i gystadlu yn y Contract Gwahaniaeth i leihau costau cyffredinol a galluogi'r angen i barhau i ddefnyddio ynni adnewyddadwy fodloni amcanion datgarboneiddio cyfreithiol Prydain.

Er bod angen inni ddatblygu ar bob llaw i fodloni ein hanghenion ynni yn y DU, ni all nifer o leoliadau gefnogi'r datblygiadau mawr iawn sy'n gwneud synnwyr i ddatblygwyr mawr. Mae'r dull presennol yn cydnabod gwerth economaidd trydan yn unig yn hytrach na'r manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach. Nid yw dulliau tebyg a ddefnyddiwyd mewn gwledydd eraill yn cydnabod y manteision ehangach hyn. Er enghraifft, roedd De Affrica yn cynnwys targedau creu swyddi a perchnogi cymunedau o fewn proses eu harwerthiant.

Rydym wedi gweld y gwahaniaeth mewn ymagwedd ble y bo datblygwyr yn gweithio gyda phobl a busnesau lleol i ddarparu prosiectau ble y mae pobl yn rhan o'u cynllunio ac yn cael y cyfle i brynu i mewn i'r prosiect. Rydym yn credu bod hyn yn sylfaenol o ran derbyn datblygiadau yn y dyfodol a bod tystiolaeth y gellid eu cyflawni am gost fforddiadwy. Rydym yn gofyn i Lywodraeth y DU gydnabod gwerth cymdeithasol ac economaidd ychwanegol cynhyrchu gwasgaredig o fewn y drefn Contract Gwahaniaeth, yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ynni Cymunedol Cymru
Community Energy Wales

CLILC • WLGA

awel CO-OP

Centre for Alternative Technology
Canolfan y Dechnoleg Amgen

sirius Renewable Energy

CLA CYMRU

MAKING WALES BETTER
iwa
GWNEUD CYMRU WELL

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

renewableUK

Llywodraeth Cymru
Welsh Government